Gweithio mewn partneriaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Goodson Thomas

Briff yr Ymgeisydd

Cau 17/09/2025

Cadeirydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

Goodson Thomas10

Cynnwys

3. Cyflwyniad gan y Dirprwy Brif Weinidog
4. Cefndir
5. Rôl a chyfrifoldebau'r Awdurdod
6. Rolau a chyfrifoldebau'r Cadeirydd
7. Taith yr Ymgeisydd
9. Cydnabyddiaeth a sut i wneud cais

Cyflwyniad gan Huw Irranca-Davies AS,

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Ar draws Cymru, mae canrifoedd o fwyngloddio wedi mowldio ein tirwedd a gadael ei ôl arni. Dyma hanes sydd wedi llunio a chyffwrdd â bywydau pobl gydol yr ugeinfed ganrif, wrth i'n cymunedau yn y meysydd glo yng Nghymru danio'r chwyldro diwydiannol. Heddiw, mae'r un cymunedau hynny yn wynebu gwaddol anodd o domenni nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio mwyach, rhai glo a rhai nad ydynt yn rhai glo.

Huw Irranca-Davies, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Dyma gyfle unigryw i chwarae rôl arwain allweddol wrth sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod), Corff Hyd Braich newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn dod yn weithredol ar 1 Ebrill 2027. Ymhlith ei swyddogaethau, bydd yn darparu cyfundrefn reoli ragweithiol ar gyfer tomenni mwyngloddio nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, hynny i ddiogelu lles pobl, diogelu cymunedau a diogelu seilwaith hanfodol Cymru.

Bydd yr Awdurdod yn mynd ati'n rhagweithiol ac mewn ffordd gyson i asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Rhan ganolog o'r drefn yw dyletswydd y corff newydd i ddatblygu a chynnal cofrestr genedlaethol o domenni nas defnyddir sy'n peri bygythiad i les pobl neu a allai wneud hynny.

I filoedd o bobl, mae'r tomenni hyn yn eu hatgoffa'n barhaus o'r effeithiau trasig posib pe bai pethau'n mynd o'i le.

Fel cenedl, fyddwn ni fyth - ac ni ddylem fyth - anghofio trychineb Aberfan. Ac fel y gwyddom, mae'r risgiau'n cynyddu wrth inni deimlo effeithiau'r argyfwng hinsawdd.

Mae storm Bert yn 2024 yn rhybudd amlwg arall eto o'r difrod y gall glaw trwm ei achosi, a pha mor fregus y gall tomen segur fod mewn tywydd eithafol. Gwelais yr effaith frawychus yng Nghwmtyleri fy hun ac wrth i'r hinsawdd newid, gallwn ddisgwyl mwy o stormydd a gaeafau gwlypach. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni fod yn barod i addasu ac ymateb.

Mae rôl y Cadeirydd yn un proffil uchel a dylanwadol wrth gyflawni prif bwrpas yr Awdurdod, sef sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd a gwneud yn siŵr bod ein cymunedau'n fwy diogel, nawr ac yn y dyfodol.

Bydd yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i ddarparu cyfeiriad strategol cryf a chwarae rôl hanfodol wrth lywio a datblygu'r Awdurdod a'l swyddogaethau.

Rydym yn chwilio am rywun blaengar ac uchelgeisiol gyda phrofiad sylweddol o arwain mewn rôl weithredol neu anweithredol ac yn ddelfrydol gyda rhywfaint o brofiad blaenorol fel cadeirydd.

Rydym yn croesawu unigolion sy'n gallu cynnig persbectifau gwahanol, meddwl strategol, ac ymrwymiad i sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel, gydag awydd cryf i gael effaith gadarnhaol. Rydym wedi ymrwymo i amrywiaeth a chynhwysiant ac yn annog unigolion o bob cefndir i ymgeisio.

Cefndir

Sefydlwyd y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo ('y Tasglu') gan y Prif Weinidog yn syth ar ôl tirlithriad Tylorstown. Rhoddwyd y rhaglen waith ganlynol iddo:

- **Nodi lleoliad a statws yr holl domenni glo nas defnyddir;**
- **Sefydlu rhaglen o archwiliadau a gwaith cynnal a chadw tomenni; a**
- **Sicrhau bod deddfwriaeth yn addas i'r diben**

Y bwriad oedd defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu rhaglen yn y dyfodol i adfer tomenni nas defnyddir, mynd i'r afael â phroblemau sefydlogrwydd hirdymor a manteisio ar gyfleoedd posibl y gallai tomenni segur eu cynnig.

Mae dros 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, ac mae 360 ohonynt wedi'u rhannu'n domenni categori C a D, y rhai sydd â lefel uwch o fygythiad posibl. Yng Nghymoedd y De y mae dros 90% o'r tomenni categori C a D, gan effeithio'n anghymesur ar ardaloedd sy'n profi lefelau uchel o amddifadedd.

Mae ein hetifeddiaeth ddiwydiannol yn golygu mwy na thomenni glo yn unig. Mae nifer fawr o domenni nad ydynt yn rhai glo yng Nghymru – amcangyfrifir y gallai fod mwy nag 20,000 ohonynt. Mae rhain yn parhau'n rhan bwysig a gweladwy o hanes balch Cymru o fwyngloddio.

Mae tirlithriadau diweddar yn Tylorstown ym mis Chwefror 2020 a Chwmtyleri ym mis Tachwedd 2024 yn cael eu priodoli i gyfnod o law dwys, a effeithiodd ei amlder a'i ddwyster ar y systemau draenio wedi'u peiriannu, ac nid oedd rhai ohonynt wedi'u cynllunio i ymdopi â'r amodau hinsawdd presennol a rhagweledig.

Mae'r Tasglu wedi ymgymryd â rhaglen waith eang sy'n cynnwys meithrin gwell dealltwriaeth o faint yr her, cynnal archwiliadau a gwneud gwaith cynnal a chadw ar domenni, a chyflwyno treialon technoleg i asesu rôl technoleg wrth ddarparu gwybodaeth am symudiadau tir a systemau dŵr.

Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Awdurdod Adfer Glofeydd (yr Awdurdod Glo fel yr oedd) i gynnal archwiliadau cyfnodol o'r holl domenni sydd â gradd dros dro o gategori C neu D (y rhai sydd â risg uwch) ac i gasglu data mwy cyffredinol am domenni glo nas defnyddir. Estynnwyd yr archwiliadau i gynnwys tomenni categori B yn 2024 a bydd tomenni categori A yn cael eu harchwilio yn 2025-2027.

Mae archwilio tomenni yn helpu i ddangos pa waith cynnal a chadw ac adfer sydd angen ei wneud arnynt, ac mae'r archwiliadau'n fodd hefyd i weld a yw systemau draenio wedi'u blocio ac a ydynt yn gweithio'n effeithiol.

Ers diwedd 2020, mae cynllun grant Llywodraeth Cymru wedi bod ar gael i awdurdodau lleol allu gwneud y gwaith hwn ac archwilio tomenni i nodi pa waith cynnal a chadw sydd ei angen, gan gynnwys gwaith adfer ar domenni sydd â phroblemau sefydlogrwydd hysbys.

Er mwyn cefnogi'r rhaglen diogelu tomenni glo, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £44.4 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf dros dair blynedd (2022/23, 2023/24, a 2024/25) ac mae hi newydd gyhoeddi £34 miliwn arall ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. O gynnwys y £25 miliwn oddi wrth Lywodraeth y DU yn ei Datganiad yr Hydref, mae hyn yn golygu y bydd dros £100 miliwn wedi'i fuddsoddi yn ystod tymor y Senedd hon i wneud tomenni glo yn ddiogel.

Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i gynnal gwaith cynnal a chadw ac adfer ar domenni glo ac mae ein rhaglen bellach wedi cyflawni mwy na 3000 o archwiliadau o domenni glo ledled Cymru hyd yn hyn. Mae cyllid wedi'i ymrwymo hefyd hyd at sefydlu'r corff, pan gaiff y gwaith ei drosglwyddo i'r Awdurdod.

Rôl a Chyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) yn darparu ar gyfer system newydd o reoleiddio ar gyfer tomenni rwbel nas defnyddir yng Nghymru. Mae'r Bil – y disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Medi – yn creu corff statudol a fydd â swyddogaethau i gyflawni cyfundrefn reoli ragweithiol ar gyfer tomenni glo a thomenni nad ydynt yn glo. Ei brif bwrpas yw amddiffyn lles pobl, diogelu cymunedau ac amddiffyn seilwaith hanfodol Cymru. Bydd yr Awdurdod yn darparu dull cyson ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am weithredu a goruchwylio'r drefn newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir a bydd yn gweithio o fewn fframwaith o bwerau a dyletswyddau i sicrhau nad yw tomenni'n bygwth lles pobl. Bydd yr Awdurdod yn weithredol ar 1 Ebrill 2027 a bydd ganddo weithlu o tua 75 pan fydd ganddo ei adnoddau llawn.

Prif Gyfrifoldebau'r Awdurdod

- **Llunio a chynnal cofrestr genedlaethol** o domenni nas defnyddir sy'n fygythiad i les pobl.
- **Dull cenedlaethol newydd o gategoreiddio tomenni,** yn seiliedig ar asesiad llawn o bob safle sy'n pasio proses sgrinio gychwynnol. Bydd yr asesiad hwn yn edrych ar yr holl beryglon y gallai tomen eu hachosi i gymunedau, eiddo a seilwaith.
- **Trefn fonitro haenog gyda gofynion monitro a rheoli rhagnodedig** yn seiliedig ar gategori pob tomen. Bydd hynny'n sicrhau trefn gymesur, sy'n seiliedig ar beryglon, a dyletswydd i sicrhau bod trefniadau rheoli ar gyfer y tomenni â'r categorïau uchaf.
- **Cyflawni dyletswydd gyffredinol i** sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd ansefydlogrwydd.
- **Pwerau gorfodi sifil,** gan gynnwys pwerau sy'n caniatáu i'r Awdurdod ofyn am wybodaeth a dogfennau, ac i gael mynediad at domenni nas defnyddir a'u harchwilio;
- **Pwerau gorfodi troseddol** pan fo angen.

Rôl a Chyfrifoldebau'r Cadeirydd

Bydd Cadeirydd Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru yn chwarae rhan ganolog wrth oruchwylio safonau Llywodraethu a pherfformiad y Bwrdd a gallu'r sefydliad i ddarparu fframwaith rheoli rhagweithiol ar gyfer diogelu cymunedau. Cynigir y rôl yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol. Dyma'r cyfrifoldebau craidd:

Prif Gyfrifoldebau

Bydd deiliad llwyddiannus y swydd yn:

- **Arwain y Bwrdd**:
  Cadeirio cyfarfodydd Bwrdd a rhoi arweiniad clir a strategol i sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol ac yn cwrdd a'i hamcanion.
- **Penodiadau Gweithredol**:
  Cymryd rhan yn y broses o benodi'r Prif Weithredwr ac Aelodau'r Bwrdd.
- **Gweithredu Strategol**:
  Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Bwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau gweithredu a sefydlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei greu mewn pryd a'i fod yn addas i'r diben ar ei ddiwrnod cyntaf.
- **Sicrwydd a Goruchwyliaeth**:
  Rhoi sicrwydd llawn, clir o ansawdd uchel sy'n argyhoeddi o effeithiolrwydd yr Awdurdod wrth weithio i roi 'Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli nas Defnyddir (Cymru) 2025' ar waith.
- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**:
  Cynrychioli'r Awdurdod ar lefel uwch, gan feithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr y llywodraeth a'r diwydiant.
- **Cynllunio Strategol**:
  Arwain y Bwrdd wrth osod cyfeiriad strategol ac asesu a gwerthuso'r ffordd y mae'n datblygu ac yn gweithredu strategaeth fusnes, cynlluniau ac amcanion perfformiad y sefydliad.
- **Llywodraethu ac Atebolrwydd**:
  •Sicrhau bod yr Awdurdod yn arfer y safonau uchaf o ran llywodraethu ac yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau gan yr un pryd ddwyn y Prif Weithredwr i gyfrif.
- **Datblygiad y Bwrdd**:
  Sicrhau bod gan bob aelod o'r Bwrdd rolau a chyfrifoldebau clir mewn perthynas â'r cyfnod pontio a datblygu cynllun strategol yr Awdurdod a'i weithredu.
- **Rheoli Perfformiad**:
  Cyfrannu at reoli perfformiad y Prif Weithredwr a bod yn gyfrifol am reoli aelodau'r Bwrdd.

Manyleb Person

Meini Prawf Hanfodol

- **Arweiniad**:
  Arweinydd profiadol a medrus iawn gyda hanes cryf o lywodraethu, o roi arweiniad strategol ac o ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- **Dylanwad Strategol**:
  Byddwch yn arweinydd gweladwy a dylanwadol, sy'n gallu meithrin consensws a sbarduno penderfyniadau strategol lefel uchel. Bydd yn allweddol bod gennych y gallu i weithredu yn amgylcheddau cymhleth rhanddeiliaid, osgoi risg a sicrhau llywodraethu corfforaethol cadarn.
- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**:
  Sgiliau rhagorol ar gyfer rheoli a chyfathrebu â rhanddeiliaid. Yn gallu ennyn ymddiriedaeth a hyder Gweinidogion, gweithio mewn ffordd gymesur a meithrin consensws ynghylch ymyriadau â blaenoriaeth uchel. Byddwch yn gallu sefydlu dulliau cymesur, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a meithrin consensws ynghylch ymyriadau blaenoriaeth uchel.
- **Risg a Gwydnwch**:
  Dangos y gallu i nodi a deall risg a dealltwriaeth glir o drefniadau ymateb brys ac adfer. Sgiliau datrys problemau cryf a'r gallu i gynnig atebion neu welliannau ymarferol.
- **Arweiniaeth Gynhwysol**:
  Profiad o adeiladu a chynnal gweithlu gyda diwylliant cynhwysol ac amrywiol, chwalu rhwystrau i gyfleoedd, ymgysylltu â gweithwyr a'u hundebau llafur i feithrin perthynas gynhyrchiol, lle mae'r gweithwyr hynny'n cael eu gwerthfawrogi a'u parchu fel partneriaid mewn sefydliad newydd.
- **Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus:**
  Dealltwriaeth glir o 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' Nolan ac ymrwymiad iddynt.

Dymunol

- Byddai profiad o gyflawni gweithrediadau yn fanteisiol ond nid yn hanfodol
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Taith yr Ymgeisydd

Yn Goodson Thomas, rydym yn gwerthfawrogi'r berthynas rydym yn ei ddatblygu gydag ymgeiswyr ac am sicrhau bod eich profiad y gorau all fod. Wrth i chi symud drwy'r broses recriwtio, rydym am fod yn glir am y prif gerrig milltir a fyddwch yn dod ar eu traws, ein rôl wrth archwilio eich profiad ac ateb eich cwestiynau, a beth i'w ddisgwyl ar ôl i chi wneud cais am y swydd.

Cam 1: Hysbyseb yn fyw a Cais

19eg Awst – 17eg Medi 2025

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Cam 2: Llunio rhestr fer

Bydd y panel asesu ymgynghorol yn asesu datganiadau personol a CVs ymgeiswyr i benderfynu pwy y mae'n credu sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rolau orau a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'ch datganiad personol yn unig i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen.

Cam 3: Cyfweliad â'r Cleient

16eg Hydref 2025

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Cam 4: Canlyniad

Penderfyniad Gweinidogol: Dechrau/ Canol Tachwedd

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn 'benodadwy' yn cael eu hargymell i'r Dirprwy Brif Weinidog a Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall ddewis cyfarfod ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Cydnabyddiaeth

- **Cyflog:** £337 y dydd, ynghyd â chostau teithio a threuliau eraill o fewn terfynau rhesymol.

- **Lleoliad:** Disgwylir i leoliad y swydd fod yng Nghymoedd De Cymru, fodd bynnag nid yw'r union leoliad wedi'i bennu eto. Rhagwelir trefniadau gwaith hybrid gyda disgwyliad y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn treulio peth amser yn yr Awdurdod yn ôl yr angen.

- **Ymrwymiad Amser:** Hyd at 4 diwrnod y mis am y 2 flynedd gyntaf, a disgwylir i hyn leihau i 2 ddiwrnod y mis wedyn.

- **Telerau'r penodiad:** Penodiad cychwynnol o 5 mlynedd, oni bai ei fod yn cael ei derfynu cyn hyn trwy rybudd ysgrifenedig o dri mis. Yn yr un modd, gall y Gweinidog derfynu'r penodiad ar unrhyw adeg. Nid yw'r penodiad yn bensiynadwy.

Dyddiad Cau

- Canol nos, 17eg Medi 2025

Cyfweliad Panel

- 16eg Hydref 2025

Sut i wneud cais

I gefnogi'r gwaith o chwilio a phenodi ar gyfer y swydd hon, rydym wedi defnyddio Goodson Thomas, gwasanaeth ymgynghori Chwilio Gweithredol.

I drafod yn anffurfiol, cysylltwch â thîm Goodson Thomas ar 029 2167 4422 neu gwybodaeth@goodsonthomas.com.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y rolau, anfonwch e-bost at Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I wneud cais am y rôl hon, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a chliciwch ar y swydd wag sydd o ddiddordeb i chi. Cliciwch ar 'Gwneud Cais' yn y gornel chwith isaf. Os hoffech wneud cais am y swydd wag hon yn y Gymraeg, defnyddiwch y ddolen 'Newid Iaith' ar ochr dde uchaf y dudalen hon, i fynd â chi i fersiwn Gymraeg yr hysbyseb hon, lle gallwch wneud cais yn y Gymraeg.

Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, a gallwch ddefnyddio hon i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cais hwn neu unrhyw geisiadau eraill a wnewch.

Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi uwchlwytho CV a datganiad personol.

Goodson Thomas

Diolch